Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru i ymchwil

## ‘Llwybrau datblygu’r Gymraeg o fewn y celfyddydau i weithwyr creadigol adroddiad ac argymhellion’

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Yn Ionawr 2022, comisiynwyd ymchwil gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ddarganfod beth oedd llwybrau datblygu'r Gymraeg o fewn y celfyddydau i weithwyr creadigol. Hysbysebwyd y tendr yn Rhagfyr 2021. Cytundebwyd Cwmni ymchwil Arad i gyflawni'r gwaith gan ddechrau ar ddiwedd Chwefror 2022.

Pwrpas y gwaith ymchwil oedd cwestiynu a cheisio canfod dulliau gweithredu addas i fynd i'r afael ag un o'r 10 argymhelliad a nodwyd yn adroddiad Mapio'r Celfyddydau Cymraeg 2019: Argymhelliad 7 "Datblygu llwybrau clir a chreadigol i ddatblygu gyrfa gynaliadwy yn y celfyddydau yn y Gymraeg..."

Mae'r prinder ymarferwyr creadigol ar draws y sector creadigol yn un sy'n achosi pryder a sialens i sefydliadau a chyfranogwyr. Rydym yn gwybod bod diffyg hyder a sgiliau Cymraeg o fewn y sector yn fater sydd angen mynd i'r afael ag o mewn sawl ffordd ac nad oes modd gwneud hynny ar ein pennau ein hunain. Mewn sawl maes, mae angen mynd allan o Gymru i dderbyn cyrsiau addysg uwch neu dderbyn y cyrsiau hynny trwy gyfrwng y Saesneg yn unig o fewn Cymru. Mae angen ymdrech strategol genedlaethol i fynd i'r afael â'r heriau o fewn Cymru. Gwaethygodd y sefyllfa yn dilyn y pandemig gydag ambell faes yn cyrraedd pwynt difrifol iawn.

Mae'r ymchwil a'r argymhellion hyn yn casglu'r heriau ynghyd ac yn cyflwyno datrysiadau ymarferol, rhai ohonynt sydd eisioes ar y gweill ac eraill sydd angen eu datblygu o'r newydd. Mae'n ein harfogi i fynd i'r afael â'r heriau amrywiol ar draws Cymru. Er bod angen edrych ar bob arbenigedd celfyddydol ar wahân ar adegau, mae rhai strategaethau cenedlaethol yn berthnasol i bob un. Croesawn yr awgrymiadau hyn a diolchwn i bawb sydd wedi cymryd amser i ymateb i'r gofynion gan ychwanegu profiadau a gwybodaeth ddefnyddiol i ni.

Mae ambell awgrym yn ategu'r angen sydd wedi ei amlinellu yn yr adroddiad Mapio a'r adroddiad Marchnata (2022). Yr un amlycaf yw'r galw am fas data o ymarferwyr creadigol Cymraeg. Ymatebwn i bob argymhelliad yn unigol isod.

Cynhaliwyd yr ymchwil a'r adroddiad gan gwmni Arad a lluniwyd yr ymateb gan Ysgogydd y Gymraeg a Phwyllgor y Gymraeg. Rhan o ddatblygiadau ehangach sy'n cael eu cynllunio a'u gweithredu gan yr Ysgogydd yw'r adroddiad hwn. Mae sôn yn yr adroddiad am gytundeb gyda'r Ganolfan Dysgu Cynraeg Genedlaethol, y Consortiwm Celf Cymraeg a rhaglenni cefnogol i unigolion creadigol megis Synhwyro'r Iaith a Llais y lle. Mae'r rhaglenni hyn yn parhau i gael eu datblygu ac yn ymateb yn uniongyrchol i ganfyddiadau'r adroddiad hwn.

Croesawn eglurder yr adroddiad, sydd wedi blaenoriaethu'r gofynion o fewn pedair adran:

- datblygu sgiliau iaith Gymraeg a dealltwriaeth y gweithlu creadigol
- cynyddu gweithgarwch yn y Gymraeg
- annog cyfleoedd i gydweithio ar draws y celfyddydau, sydd â'r gallu i gyfoethogi gwaith creadigol i artistiaid a chynyddu'r arlwy i gynulleidfaoedd
- ymchwil pellach.

Derbyniwn argymhellion yr adroddiad gan nodi camau gweithredu dros y ddegawd nesaf i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sydd wedi eu nodi.

## Cyd-destun

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi neges glir yn ei strategaeth Gymraeg, Cymraeg 2050, yr uchelgais i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

I gefnogi hyn, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod y Gymraeg yn un o'i nodau llesiant ("Cymru lle mae diwylliant yn fywiog a'r Gymraeg yn ffynnu"). Mae gennym ran glir i'w chwarae i gefnogi amcanion Cymraeg 2050.

A ninnau'n gorff cyhoeddus, mae gennym gyfrifoldebau cyfreithiol i fodloni Safonau'r Gymraeg ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae gennym hefyd Bolisi Hyrwyddo a Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg. Gweithiwn ag amrywiaeth o bartneriaid, rhanddeiliaid ac artistiaid a'r sefydliadau celfyddydol a ariannwn.

Mae cynllun strategol 10 mlynedd newydd yn cael ei ddatblygu gan y Cyngor sy'n disodli cynllun blaenorol, 'Er Budd Pawb'. Mae'r cynllun yn cael ei arwain gan 6 egwyddor, a'r Gymraeg yn un o'r rheiny.

## Nod yr ymchwil

Nod yr ymchwil oedd asesu anghenion a chyfleoedd i gynyddu'r gweithlu creadigol sy'n hyderus i weithio drwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Yr amcanion a nodwyd yn y fanyleb ar gyfer yr astudiaeth oedd:

- casglu gwybodaeth am y gwaith amrywiol sy'n digwydd ar hyn o bryd i gefnogi'r gweithlu creadigol[1]
- casglu gwybodaeth am y diffygion a'r cyfleoedd datblygu gweithlu creadigol
- trafod anghenion a syniadau gyda'r gweithlu creadigol, sefydliadau celfyddydol a darparwyr cyrsiau creadigol
- llunio argymhellion am ddulliau datblygu'r meysydd uchod.

Gellid dehongli'r cysyniad o 'lwybrau gyrfa trwy'r Gymraeg' neu 'lwybrau datblygu'r Gymraeg' mewn sawl ffordd. Mae pob llwybr gyrfa yn unigryw i'r unigolyn hwnnw, a'r defnydd o'r Gymraeg yn dibynnu wrth gwrs ar ddewisiadau personol, ar y cyfleoedd sydd ar gael, ar gyd-destun ac ar ffactorau allanol. Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, defnyddir y term i olygu'r cyfleoedd hynny sydd ar gael i artistiaid a gweithwyr creadigol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel rhan o'u gwaith.

## Blaenoriaethau ac argymhellion - trosolwg

Mae angen gweithredu ar sawl lefel er mwyn cefnogi datblygiad llwybrau gyrfa yn y Gymraeg. Dylid blaenoriaethau tri maes cyd-gysylltiedig, sef:

- Datblygu sgiliau iaith Gymraeg a dealltwriaeth y gweithlu creadigol o'r iaith
- Cynyddu gweithgarwch yn y Gymraeg
- Annog cyfleoedd i gydweithio ar draws y celfyddydau er mwyn cyfoethogi gwaith creadigol a chynyddu'r arlwy i gynulleidfaoedd

1. Diffiniwn ymarferwyr creadigol fel ymarferwyr arbenigol sy'n creu, cynnal neu gefnogi gweithgarwch a chynnyrch celfyddydol. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr dawns, drama, celf weledol, cerddoriaeth a thechnegol.

## Blaenoriaeth 1: Datblygu sgiliau iaith Gymraeg

i. Mae angen cefnogi capasiti'r gweithlu trwy ehangu'r ddarpariaeth i gefnogi sgiliau iaith Gymraeg ymysg gweithwyr creadigol. Mae angen hefyd sicrhau bod cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus i weithwyr creadigol dwyieithog sy'n dymuno uwch-sgilio a datblygu arbenigedd yn eu maes. Nôd hyn yw cryfhau'r gweithlu creadigol Cymraeg.

ii. Ochr yn ochr â buddsoddi yn sgiliau'r gweithlu, dylid ystyried ffyrdd o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o berthnasedd y Gymraeg ymysg arweinyddion a byrddau rheoli yn y sefydliadau celfyddydol hynny lle mae potensial i gynyddu gweithgarwch yn y Gymraeg. Dylid gweithio'n agos gyda'r sefydliadau, gan adeiladu ar ddulliau sydd wedi'u datblygu gan Academi Wales/is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru fel rhan o'r prosiect Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog.

| Blaenoriaeth 1 | |
|---|---|
| Argymhelliad 1a | Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod pob sefydliad celfyddydol a ariennir yn ymrwymo i gefnogi gallu gweithwyr creadigol i weithio'n ddwyieithog – boed yn staff llawn amser neu'n llaw-ryddion y mae'r sefydliadau yn eu cyflogi dros dro. |
| Argymhelliad 1b | Dylid parhau i ddatblygu cyfleoedd sydd ar gael drwy'r cyrsiau safonol a ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac sydd wedi'u teilwra ar gyfer y sector celfyddydau gan y Cydlynydd Dysgu Cymraeg. |
| Argymhelliad 1c | Dylai'r Cyngor Celfyddydau weithredu cynllun mentora ar ffurf peilot, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau creadigol Cymraeg sydd wedi datblygu dulliau mentora i gefnogi sgiliau a hyder artistiaid i weithio yn y Gymraeg. Dylid gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun mentora ar ei ffurf beilot. |

| Blaenoriaeth 1 | |
|---|---|
| Beth wnawn ni? | **1.** Mae'r Gymraeg yn un o 6 egwyddor canolog i waith a chynlluniau pob sefydliad celfyddydol sy'n ceisio am nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae gofyn ar bawb i gynyddu eu cynigion a gweithgarwch Cymraeg yn ogystal â chynyddu sgiliau iaith y gweithlu a'r sector.<br><br>**2.** Byddwn yn parhau i gynnal gwasanaeth Iaith Gwaith i'r celfyddydau trwy gytundeb gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a fydd yn cynnwys darpariaeth cyngor, cefnogi a chynllunio pwrpasol ar gyfer y sector.<br><br>**3.** Byddwn yn cynllunio twf a datblygiad y cynllun yn strategol gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gan lunio partneriaeth ffurfiol.<br><br>**4.** Byddwn yn ymchwilio i ddulliau dysgu creadigol ar gyfer y sector a llunio rhaglen ddysgu berthnasol ar eu cyfer mewn cydweithrediad â darparwyr dysgu y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.<br><br>**5.** Byddwn yn parhau i ddarparu cyfleoedd a chefnogaeth dysgu Cymraeg i unigolion llawrydd.<br><br>**6.** Byddwn yn defnyddio adnoddau 'Synhwyro'r Iaith' er mwyn creu cyrsiau rhoi iaith ar waith a chodi hyder i ddysgwyr lefelau uwch mewn partneriaeth â darparwyr dysgu'r GDCG.<br><br>**7.** Byddwn yn sicrhau cynlluniau mentora a hyfforddiant mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol a rhaglenni mewnol gan gynnwys y Rhaglen Dysgu Creadigol. |

## Blaenoriaeth 2: Cynyddu gweithgarwch

i. Mae cydberthynas amlwg rhwng gweithgarwch yn y Gymraeg a llwybrau datblygu. Mae perfformiadau, cynyrchiadau ac arddangosfeydd yn y Gymraeg yn cynnig cyfleoedd i wella sgiliau a gwneud cynnydd yn broffesiynol ac yn greadigol. Mae angen cynyddu gweithgarwch Cymraeg sefydliadau mewn sawl ffordd:

- **'allbwn'** creadigol yn y Gymraeg trwy gynyrchiadau
- sut y mae sefydliadau ar draws y sector yn **cyfathrebu** gyda'r cyhoedd wrth farchnata a hysbysebu
- **proffil** y Gymraeg yn gyffredinol ar draws y sector.

ii. Mae gan Gyngor y Celfyddydau y gallu i ddylanwadu'n uniongyrchol ar hyn trwy ddulliau dyrannu grant a'r amodau a thelerau cysylltiedig. Ond mae angen gofal wrth ddylanwadu a sicrhau bod sefydliadau yn gefnogol ac wedi'u hymrwymo i unrhyw newidiadau i'r disgwyliadau a'r gofynion arnynt.

| Blaenoriaeth 2 | |
|---|---|
| **Argymhelliad 2a** | Dylai'r Cyngor y Celfyddydau roi ystyriaeth i ddichonolrwydd model amgen o gyllido sefydliadau celfyddydol, gan gynnwys cyflwyno amodau grant sydd yn:<br>• sicrhau cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol er mwyn i weithwyr fedru gweithio yn y Gymraeg;<br>• annog sefydliadau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn rhaglenni, cynnyrch a gweithgarwch corfforaethol. |
| **Argymhelliad 2b** | Fel rhan o'r broses o weithredu argymhellion yr Adroddiad Marchnata, dylai'r Cyngor Celfyddydau weithio gyda sefydliadau ar draws y sector i gynyddu dealltwriaeth o gynulleidfaoedd Cymraeg a'u hymgysylltiad gyda'r cynulleidfaoedd hynny. |

| Blaenoriaeth 2 | |
|---|---|
| Beth wnawn ni? | **1.** Mae'r Gymraeg yn un o 6 egwyddor canolog i waith a chynlluniau pob sefydliad celfyddydol sy'n ceisio am nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae gofyn ar bawb i gynyddu eu cynigion a gweithgarwch Cymraeg gan gyhoeddi eu cynlluniau yn flynyddol.<br><br>**2.** Bydd anogaeth i sefydliadau geisio am farc safon y 'Cynnig Cymraeg'.<br><br>**3.** Bydd gofyn ar bob sefydliad i gyhoeddi cyfrwng iaith y weithgaredd neu gynnyrch yn agored gan roi ystyr manylach i dermau cyffredinol megis 'dwyieithog' trwy ddatgan faint o'r cynnyrch/weithgaredd sy'n Gymraeg.<br><br>**4.** Byddwn yn cynnig cynllun mentora i sefydliadau a bydd y gofynion yn cael eu cefnogi gan swyddogion Cyngor y Celfyddydau ac yn benodol, Ysgogydd y Gymraeg.<br><br>**5.** Byddwn yn parhau i asesu cynulleidfaoedd trwy waith 'cynulleidfaoedd Cymru' a thîm ymchwil mewnol y Cyngor.<br><br>**6.** Byddwn yn parhau i ddatblygu'r berthynas â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac ymateb i anghenion dysgu Cymraeg y sector.<br><br>**7.** Byddwn yn parhau i gynnal rhwydwaith gymunedol trwy raglen Noson Allan y Cyngor er mwyn deall anghenion a chyfleoedd cynnyrch creadigol cymunedol a sicrhau twf cynulleidfaoedd yn lleol.<br><br>**8.** Byddwn yn creu perthynas waith adeiladol â'r Mentrau Iaith a'r Urdd er mwyn cynyddu cynnyrch, argaeledd cynnyrch a pherthnasedd y cynnyrch hwnnw i gynulleidfaoedd Cymru. |

## Blaenoriaeth 3: Cydweithio a phartneriaethau

i. Amlyga'r ymchwil fod potensial i gynyddu llwybrau datblygu yn y Gymraeg drwy gefnogi partneriaethau a chydweithio. Mae cyfle i adeiladu ar waith Consortiwm Celf Cymru, sydd wedi datblygu'n fforwm strategol bwysig i adnabod a chefnogi blaenoriaethau mewn perthynas â'r Gymraeg.

ii. Dylid manteisio ar y brwdfrydedd sydd yn bodoli ymysg mudiadau sy'n gweithio yn Gymraeg. Mae sgôp i Gyngor y Celfyddydau arwain a chydlynu'r gwaith fel bod y cydweithio hwn yn digwydd mewn ffordd bwrpasol ac sydd yn ymateb i fylchau mewn darpariaeth a chyfleoedd datblygu proffesiynol.

iii. Ceir cyfleoedd hefyd i gefnogi partneriaethau rhwng mudiadau ac artistiaid sydd eisoes yn gweithio yn y Gymraeg a sefydliadau/unigolion sydd yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau iaith a'u gallu i weithio yn y Gymraeg yn y dyfodol. Dylai'r Cyngor ystyried sut y gellid paru neu grwpio sefydliadau i weithio ar y cyd mewn meysydd penodol neu fel rhan o flaenoriaethau strategol.

| Blaenoriaeth 3 | |
|---|---|
| **Argymhelliad 3a** | Dylid adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd hyd yma trwy'r Consortiwm Celf Cymraeg, gan weithredu yn y meysydd blaenoriaeth sydd wedi'u pennu. |
| **Argymhelliad 3b** | Mae'r Cyngor Celfyddydau wedi ymrwymo i ddatblygu rhwydwaith/rhwydweithiau i arwain gweithgarwch pellach i sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i greadigrwydd. Dylid paratoi a rhannu cylch gorchwyl sy'n rhoi ffocws pendant ar gyfer y rhwydweithiau hyn, gan weithio gyda phartneriaid leol perthnasol. |
| **Argymhelliad 3c** | Ar y thema 'Synhwyro'r iaith', mae'r Consortiwm wedi cychwyn ar y broses o greu pecyn cymorth a rhaglen hyfforddi ar gyfer defnyddio'r celfyddydau fel ffordd o ymgysylltu gyda'r iaith Gymraeg. Dylid gwerthuso defnydd o'r pecyn cymorth a'r hyfforddiant mewn gwahanol gyd-destunau a meysydd. |
| **Argymhelliad 3ch** | Yn yr un modd, dylid gwerthuso'r prosiectau sy'n derbyn grantiau o'r loteri fel rhan o'r thema 'Llais y Lle' gan adnabod unrhyw wersi sy'n codi o'r gwaith mewn perthynas â llwybrau datblygu yn y Gymraeg. |

| Blaenoriaeth 3 | |
|---|---|
| Argymhelliad 3d | Dylai'r Cyngor Celfyddydau weithio gyda phartneriaid strategol yn y sector addysg a mudiadau celfyddydol i ddeall pa fathau o gefnogaeth fydd angen a modelau addas ar gyfer darparu'r gefnogaeth. |
| Argymhelliad 3dd | Dylai'r Cyngor Celfyddydau ymchwilio sut i ateb y galw am gronfa ddata o ymarferwyr sy'n medru (neu sy'n dymuno) cynnal gwaith neu berfformio yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. |
| Beth wnawn ni? | **1.** Byddwn yn parhau i gynnal consortiwm o unigolion creadigol arbenigol i gynghori a mewnbynnu ar gynlluniau Cymraeg y sector gelfyddydol.<br>**2.** Byddwn yn parhau i ddatblygu rhwydweithiau perthnasol a phenodol. Mae rhwydwaith Noson Allan wedi ei sefydlu eisoes ac mae cynlluniau ar gyfer sefydlu rhai Theatr a maes Iechyd a Lles cyn 2024.<br>**3.** Byddwn yn cefnogi twf mewn gweithgarwch rhwydweithio Cymraeg mewn partneriaeth â mudiadau rhwydweithiol.<br>**4.** Byddwn yn cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgolion Cymru ar gynlluniau addysg bellach a'r iaith Gymraeg mewn cyrsiau creadigol.<br>**5.** Byddwn yn peilota cynllun mentora a hyfforddi cymunedol ar gyfer unigolion creadigol mewn partneriaeth â'r Mentrau Iaith.<br>**6.** Byddwn yn ymchwilio'n bellach i gynllun prentisiaethau creadigol Cymraeg cenedlaethol.<br>**7.** Byddwn yn rhannu a thyfu adnodd 'Synhwyro'r Iaith' i ymarferwyr creadigol trwy'n gwefan, cynlluniau mentora a hyfforddiant mewn cydweithrediad a'r Rhaglen Dysgu Creadigol.<br>**8.** Byddwn yn parhau i gefnogi ac asesu anghenion, llwyddiannau cynlluniau 'Llais y Lle' gan sicrhau partneriaethau cymunedol gwydn.<br>**9.** Byddwn yn rhannu canfyddiadau asesiad 'Llais y Lle' a 'Synhwyro'r Iaith' gydag uned Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.<br>**10.** Byddwn yn parhau i ymchwilio i'r dulliau gweithredu bas data mwyaf perthnasol i'r sector. |

## Blaenoriaeth 4: Amrywiaeth a chynhwysiant

i. Ni fu'n bosibl, o fewn cwmpas yr astudiaeth hon, archwilio'n fanwl y cyfleoedd a'r heriau a wynebir gan unigolion â rhinweddau gwarchodedig wrth ddefnyddio ac ymgysylltu â'r Gymraeg.

| Blaenoriaeth 4 | |
|---|---|
| **Argymhelliad 4** | Dylai'r Cyngor Celfyddydau ystyried cynnal ymchwil i sut mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a llwybrau datblygu yn cael eu hyrwyddo ymhlith i) pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a ii) pobl anabl a niwroamrywiol. Gallai'r astudiaethau unigol hyn archwilio'r rhwystrau a brofir gan unigolion o gymunedau amrywiol wrth ddefnyddio neu geisio gwella eu sgiliau iaith Gymraeg. |
| **Beth wnawn ni?** | Byddwn yn comisiynu gwaith ymchwil penodol i ddarganfod sefyllfa ac argymhellion llwybrau datblygu Cymraeg creadigol ar gyfer:<br>i. pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig<br>ii. pobl anabl a niwroamrywiol. |